**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET - PARC COFFA YNYSANGHARAD**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad a gynhaliwyd Dydd Iau, 3 Ionawr 2019 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd M Webber (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings    Y Cynghorydd S Powderhill

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr D Batten, Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad
Mr J Spanswick

**11 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**12 YMDDIHEURIAD**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L De Vet.

**13 PARC COFFA YNYSANGHARAD - RHAGLEN PARCIAU I BOBL CRONFA DREFTADAETH Y LOTERI**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad ddiweddariad i'r aelodau ynglyn â'r cynigion mewn perthynas â dyluniad cam 3 RIBA ar gyfer y Ganolfan Arddwriaethol, yn dilyn ymgynghoriad â Cadw a rhanddeiliaid eraill.

Trafododd yr aelodau'r ddau ddewis a'r amrywiad yn y gost rhwng y ddau ddewis. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y costau yn dal i fod yn frasgyfrifon ar hyn o bryd. Trafododd yr aelodau'r angen i gyflawni rhagor o waith er mwyn chwilio am ragor o gyfleoedd am gyllid.

Dywedodd yr aelodau y byddai samplau o'r deunyddiau a allai gael eu defnyddio yn rhan o'r dyluniad arfaethedig yn helpu'r aelodau a rhanddeiliaid/ymgynghorai allweddol i ddeall y sefyllfa'n well. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r adborth yma yn cael ei rannu â'r ymgynghorwyr.

Yn dilyn cwestiwn, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth wybod i'r aelodau am y broses gynllunio sydd ar y gweill, gan nodi bod angen cyflwyno'r dyluniadau yn ffurfiol ar gyfer cais cynllunio yn y dyfodol. Wedyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cais yma.

Cafodd yr aelodau drafodaeth ynglyn â bwrw ymlaen â Dewis 1 yn unol ag adborth Cadw a rhanddeiliaid allweddol eraill, serch hynny, gofynnon nhw am hyblygrwydd lle bo angen hynny mewn perthynas â rhai o'r dewisiadau o ran dyluniad. Yn ogystal â hynny, siaradodd yr aelodau am bwysigrwydd casglu adborth ehangach gan y cyhoedd ynglyn â'r cynigion yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau am dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â'r cais fel sy'n briodol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

1. Bwrw ymlaen a 'Dewis 1' o gynigion dylunio Cam 3 RIBA, yn amodol ar hyblygrwydd gyda'r dewisiadau o ran dylunio yn ôl yr angen.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.46 am**

**Cllr M Webber**
**Cadeirydd.**